


COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru



Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

ARWEINIAD AR AROLYGON O BRIF ARDALOEDD

MAI 2014

Dyddiad yr Adolygiad: 13/05/14

Adolygwyd gan: Aelodau'r Comisiwn

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: 13/05/17

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

CAERDYDD

CF24 0BL

Rhif ffôn: (029) 2046 4819

Rhif ffacs: (029) 2046 4823

E-bost: cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk

www.cffdl-cymru.gov.uk

Arweiniad ar Arolygon o Brif Ardaloedd

1. Cyflwyniad

Mae gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ddyletswydd i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol at y diben o ystyried a yw'n briodol gwneud neu argymhell newidiadau i Weinidogion Cymru. Ymgymerir â'r ddyletswydd ar ffurf arolwg. Caiff y ffordd y mae'r Comisiwn yn cynnal arolwg ei ddiffinio gan ddeddfwriaeth ac mae'n bosibl y caiff ei lywio gan gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r ddogfen yn darparu arweiniad mewn perthynas ag arolygu prif ardaloedd. I gael gwybodaeth am arolygon o drefniadau etholiadol prif ardaloedd, cyfeiriwch at arweiniad y Comisiwn o'r enw "*Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer*" ac, ar gyfer arolygon cymunedol, cyfeiriwch at "*Arweiniad ar Arolygon Cymunedol*" y Comisiwn. Gellir dod o hyd i'r rhain a dogfennau gwybodaeth defnyddiol eraill ar wefan y Comisiwn ar www.cffdl-cymru.gov.uk.

2. Gofynion Statudol

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf) mewn perthynas ag arolygon llywodraeth leol, gan gynnwys arolygon o brif ardaloedd, yn disodli darpariaethau deddfwriaeth gynharach. Mae Adran 21(3) y Ddeddf yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Dyma brif swyddogaeth y Comisiwn.

Mae Adran 23 y Ddeddf yn gosod gerbron y gofynion ar gyfer arolygon o brif ardaloedd lle gall y Comisiwn, ar ei fenter ei hun neu ar gais awdurdod lleol, gynnal arolwg o un brif ardal neu fwy.

Mewn perthynas ag arolwg o brif ardal, mae'n bosibl i'r Comisiwn argymhell newid ffiniau prif ardal, fel y bo'n briodol. Mae 'newid ffin prif ardal' yn gyfeiriad at –

- i. addasu ffin prif ardal;
- ii. diddymu prif ardal;
- iii. cyfansoddi prif ardal newydd.

3. Cyfarwyddiadau

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau arolygu. Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg neu, lle mae'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion mewn perthynas ag arolwg, gynnal arolwg pellach o ardal benodol. Gall y cyfarwyddyd bennu materion penodol y mae Gweinidogion Cymru yn dymuno i'r Comisiwn eu hystyried wrth gynnal yr arolwg. Cyn gwneud cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r

Comisiwn ac unrhyw fudiad y mae'n ymddangos ei fod yn cynrychioli awdurdodau lleol.

4. Newidiadau Canlyniadol

Mae Adran 23(3)(b) yn darparu o ganlyniad i newid ffin mewn prif ardal, y gall y Comisiwn argymhell newidiadau i ffiniau cymunedol, newidiadau sirol a gedwir, newidiadau i gynghorau cymuned neu newidiadau i drefniadau etholiadol fel y bo'n briodol.

5. Gweithdrefn Arolygu

Rhaid i holl arolygon llywodraeth leol gydymffurfio â'r *Gweithdrefn Arolygu* fel yr esbonnir ym mhennod 4 y Ddeddf. Prif egwyddor pennod 4 yw rhoi cyfle i bawb sydd â buddiant posibl yn yr arolwg leisio eu barn ar ffurf ymgynghoriad.

Yn unol ag arfer a ddatblygwyd gan y Comisiwn i sicrhau y cydymffurfir â gofyniad ymgynghori'r Deddf, mae i arolygon dri phrif cam: Cynigion Cychwynnol, Cynigion Drafft a Chynigion Terfynol. Mae diagram syml o'r prosesau arolygu yn Atodiad A.

6. Cynigion Cychwynnol

Cyn cynnal yr arolwg, bydd y Comisiwn yn gwneud gwaith cychwynnol sy'n cynnwys paratoi rhestr o ymgynghoreion, gwaith mapio, casglu ystadegau etholiadol a data arall, llythyrau a hysbysiadau (gan gynnwys cyfieithu) ac unrhyw ymchwiliadau priodol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yr arolwg yn cael ei dynnu at sylw ymgynghoreion gorfodol¹ ac unigolion eraill â buddiant. Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn am ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg wrth ystyried enwau Cymraeg fel rhan o'r broses arolygu.

Bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at gynghorau cymuned, ymgynghoreion gorfodol a phartïon eraill a allai fod â buddiant, gyda'r nod o amlygu newidiadau posibl i ffiniau prif ardal. Darperir hysbysiad cyhoeddus yn cyhoeddi'r arolwg i bob prif gyngor dan sylw a bydd y prif gynghorau hyn yn cael eu hannog i gynnwys eitem yn newyddlen y Cyngor ac ar ei wefan. Byddai'n briodol caniatáu cyfnod digonol o amser ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol hwn er mwyn caniatáu am y broses ymgynghori a threfnu cyfarfodydd y Cyngor². Gall y wybodaeth ganlyniadol gael ei chydodoso wedyn a'i dadansoddi cyn i'r Cynigion Drafft gael eu llunio a'u cytuno gan y Comisiwn.

¹ Mae 'ymgynghoreion gorfodol' yn cynnwys: unrhyw awdurdod lleol sy'n cael ei effeithio gan yr arolwg; comisiynydd yr heddlu a throseddau ar gyfer yr ardal; unrhyw sefydliad staff awdurdod lleol sydd wedi gofyn am fod yn rhan o'r ymgynghoriad; ac unrhyw bersonau sy'n cael eu pennu drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

7. Cynigion Drafft

Rhaid i'r adroddiad Cynigion Drafft gynnwys manylion o'r arolwg ac unrhyw gynigion newid y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol. Cyhoeddir y Cynigion Drafft er mwyn sicrhau ymgynghori'n ddigonol yn unol â phennod 4 y Ddeddf. Golyga hyn y bydd y rhai hynny â buddiant yn yr arolwg yn cael eu hysbysu trwy lythyr, hysbysiadau ar wefan y prif gyngor a hysbysfyrddau cynghorau cymuned, gwefan y Comisiwn, gwefan y prif gyngor, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddull arall sy'n briodol. Byddai'r hysbysiad yn cynnwys manylion y Cynigion Drafft a mapiau (neu fanylion ar sut a ble i gael y mapiau) a byddai'n gofyn i bob un â buddiant, gan gynnwys y cyhoedd, wneud sylwadau ar y Cynigion Drafft. Caniateir cyfnod o ryw 12 wythnos fel arfer ar gyfer ymgynghori (unwaith eto, er mwyn rhoi amser i drefnu cyfarfodydd cyngor)². Rhaid i'r adroddiad Cynigion Drafft gael ei gyhoeddi'n electronig a rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio (heb dâl) yn swyddfeydd y prif gyngor trwy gydol y cyfnod gwneud sylwadau. Rhaid anfon yr adroddiad hefyd at Weinidogion Cymru ac ymgynghoreion gorfodol a rhaid i bob un arall a ymatebodd yn y cyfnod cychwinnol gael gwybod sut i gael copi o'r adroddiad.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, caiff sylwadau ar y Cynigion Drafft eu hystyried a chaiff Cynigion Terfynol eu llunio. Caiff y Cynigion Terfynol eu cytuno wedyn gan y Comisiwn.

8. Cynigion Terfynol


Rhaid i adroddiad yr arolwg (yr adroddiad Cynigion Terfynol) gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer newid y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion yr arolwg a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â chynigion a manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a wneir yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd ac esboniad o'r rhesymau dros wneud y newidiadau hynny. Caiff yr adroddiad Cynigion Terfynol ei gyflwyno i'r awdurdod gweithredu (yn achos arolwg prif ardal, Gweinidogion Cymru). Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi'r Cynigion Terfynol yn yr un ffordd â'r Cynigion Drafft (gweler 6 uchod). Rhaid i'r adroddiad Cynigion Terfynol fod ar gael i'w archwilio (heb dâl) yn swyddfeydd y prif gyngor am 6 wythnos o leiaf wedi ei gyhoeddi. Bydd copi o'r adroddiad Cynigion Terfynol yn cael ei anfon at yr ymgynghoreion gorfodol a'r Arolwg Ordnans.

9. Camau Terfynol

Cyflwynir cynigion terfynol y Comisiwn i Weinidogion Cymru, sy'n gallu, o dan Adran 37 y Ddeddf, gwneud gorchymyn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn â neu heb ddiwygiadau neu benderfynu i beidio â gweithredu. Bydd cyfnod o chwe wythnos o leiaf ar gyfer gwneud sylwadau ar gynigion terfynol y Comisiwn yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru.

² Mae'r Ddeddf yn datgan y dylai'r cyfnod ar gyfer sylwadau fod yn gyfnod heb fod yn llai na 6 wythnos nac yn fwy na 12 wythnos.

Arolygon o Brif Ardaloedd



CAMAU TERFYNOL

